

ENW'R PWYLLGOR	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
DYDDIAD Y CYFARFOD	10 Chwefror 2022
TEITL YR EITEM	Adroddiadau Archwilio Cymru
AMCAN	Rhoi diweddariad i'r pwyllgor ar raglen waith Chwarter 3 Archwilio Cymru ac adroddiadau sydd wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar
ARGYMHELLIAD	Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad.
AWDUR	Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor

1. CEFNDIR

- 1.1. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio swyddogaeth i adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor ac fel rhan o'r swyddogaeth hon mae disgwyliad i ystyried adroddiadau cyrff adolygu allanol megis Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).
- 1.2. Yn ogystal ag ystyried adroddiadau yn ymarferol, mae disgwyl i bwyllgorau sicrhau eu hunain bod trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a geir ynddynt. Er mwyn hwyluso'r gwaith mae Archwilio Cymru yn paratoi diweddariad chwarterol ar waith y cyrff adolygu ac mae copi o'r ddogfen hon ar gyfer Chwarter 3 wedi ei gynnwys fel **Atodiad 1**.
- 1.3. Cyflwynwyd adroddiad ar astudiaethau cyfredol Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a'r cynnydd sydd wedi ei wneud gan y Cyngor mewn ymateb i gynigion neu argymhellion i gyfarfod y Pwyllgor hwn ar y 14eg o Hydref 2021. Bydd yr adroddiad nesaf yn cael ei gyflwyno ym mis Mehefin.
- 1.4. Yn y cyfamser mae copi o adroddiadau 'Comisiynu Lleoliadau mewn Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn' (Adroddiad Rhanbarthol a Chenedlaethol), 'Adolygiad o Reoli Perfformiad' a Crynodeb Archwilio Blyneddol 2021' wedi eu cynnwys fel **Atodiadau 2, 3 a 4**.